# Cynnwys


Rhaglen 2
Cofnodion y cyfarfod diwethaf 6
5 - Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg ar Berfformiad Ysgolion yr Awdurdod 2012-13 14
6 - Diweddariad ar Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau 28

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD IAU, 10 EBRILL 2014**

**10.00 a.m. THURSDAY, 10 APRIL 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

**: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 02.04.14

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
## SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

**AELODAETH / MEMBERSHIP (18)**

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Huw Edwards
Alan Jones Evans
Chris Hughes
Elin W. Jones
Linda Ann Wyn Jones
Liz Saville Roberts
Dyfrig Siencyn
Ann Williams
Hefin Williams

### Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Beth Lawton
Dewi Owen
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (4)

Alwyn Gruffydd
Llywarch Bowen Jones
Peter Read
Dilwyn Lloyd

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:**

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /
With a vote on education matters only

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd / Representative for Meirionnydd Parent Governors

(Disgwyl am enwebiad / Awaiting Nomination)
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon / Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor / Representative for Dwyfor Parent Governors

***<u>Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir ar y rhaglen</u>***

**R H A G L E N**

**1. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. <u>DATGAN BUDDIANT PERSONOL</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. <u>MATERION BRYS</u>**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. <u>COFNODION</u>**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2014.

<u>(Copi'n amgaeedig – papur **melyn)**</u>

**5. <u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH ADDYSG AR BERFFORMAID YSGOLION YR AWDURDOD 2012/13</u>** 10.00 am – 11.00 am
***Aelod Cabinet: Y Cyng. Sian Gwenllian***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ar yr uchod.

<u>(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**</u>

**6. <u>DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH "MWY NA GEIRIAU"</u>** 11.00 am – 11.45 am
***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal ar yr uchod.

<u>(Copi'n amgaeedig – papur **pinc**</u>

*************

Ar ôl y cyfarfod bydd sesiwn drafod gyda'r Aelod Cabinet Gofal a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y weledigaeth gychwynnol ar gyfer dyfodol y Gwasanaethau Preswyl.

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 13.02.14

**Yn bresennol**: **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Cadeirydd**

Y Cynghorwyr: Huw Edwards, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams a Hefin Williams.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cyng. R H Wyn Williams (Aelod Cabinet Gofal).

**Hefyd yn Bresennol:** Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Aled Evans (Uwch Swyddog Rheoli Perfformiad a Newid), Meilys Smith (Uwch Reolwr Busnes), Glenda Lloyd Evans (Rheolwr Gwasanaeth), David Oliver (Swyddog Allweddol Awtistiaeth), Olwen Ellis-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl), Iona Griffith (Rheolwr Gwasanaeth), Sioned Thomas (Rheolwr Polisi a Gwireddu Gofal a Iechyd),
Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Llywarch Bowen Jones, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, a Peter Read, Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd), Mrs Rhian Roberts (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor) a Siôn Amlyn (Cynrychiolydd Undebau Athrawon)

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

(i) Y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones yn Eitem 9 – Awtistiaeth oherwydd ei bod yn Gyfarwyddwr Cwmni Seren sydd yn rhoi gofal dydd i unigolion awtistig ac fe adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

(ii) Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ym materion gofal oherwydd bod ei wraig yn derbyn gofal ac fe adawodd y Siambr pryd drafodwyd materion yn ymwneud â thaliadau gofal.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2013 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i ychwanegu enw'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd i'r rhestr o'r rhai a ymddiheurodd am absenoldeb o'r cyfarfod diwethaf.

## 3. CONTRACTAU MUDIADAU TRYDYDD SECTOR

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal yn amlinellu pryderon diweddar ynglŷn â chontractau gyda mudiadau'r trydydd sector yn y maes gofal.

(a) Nodwyd y bu i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (AME) gwrdd â Phrif Swyddog Mantell Gwynedd i drafod y sefyllfa a bod camau mewn lle i symud ymlaen i gyd-weithio'n effeithiol. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, nodwyd y derbynnir gwybodaeth am y sefyllfa drwy'r Grŵp Cyswllt sydd yn cwrdd yn chwarterol gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn mynychu fel pwynt cyswllt ac addawodd y byddai'n gwneud y gorau gallai i gadw'r cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r mudiadau trydydd sector yn agored.

(b) Mynegwyd siom nad oedd cynrychiolydd o'r trydydd sector wedi derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn i'r Pwyllgor fedru craffu'n effeithiol ac i wybod pam bod y berthynas rhwng y Cyngor a'r mudiadau wedi dirywio.

(c) Mewn ymateb, awgrymwyd y dylid trafod y mater ymhellach mewn cyfarfod paratoi i weld pa gamau sydd yn cael eu cymryd i wella'r berthynas gyda'r sector. Wedi hynny, gellir os dymunir gwahodd cynrychiolydd o'r trydydd sector i fynychu'r Pwyllgor Craffu i adrodd ar brofiadau ynghylch y berthynas a'r cydweithio gyda'r Cyngor.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (AME) adrodd i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn cyfarch y wybodaeth amlygwyd yn (c) uchod.**

**4. ADOLYGIAD A GWERTHUSIAD O BERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2012/13 – AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU (AGGCC)**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal yn amlinellu ymatebion y Gwasanaethau Cymdeithasol i arolygiad AGGCC o'r meysydd hynny sydd angen eu gwella i'r dyfodol.

Gosododd yr Aelod Cabinet Gofal cefndir a phwrpas yr adolygiad gan dynnu sylw at y risgiau posibl, ymateb y Cyngor i'r adolygiad ynghyd â gweledigaeth y Gwasanaeth i'r dyfodol.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu'r adroddiad ac fe amlygwyd y sylwadau canlynol:

(a) Pryder ynglŷn â phartneriaeth arfaethedig rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phenderfyniadau sy'n golygu bod unigolion o Feirionnydd yn cael cynnig gofal preswyl mewn cartrefi tu allan i'r Sir yn Llangefni, Llangollen a Dinbych ymhell oddi wrth eu teuluoedd.

(b) Mewn ymateb i bryder bod gwelyau ar gyfer gofal ysbaid yn llawn, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar hyn o bryd byddai'n rhaid gwrthod ceisiadau am ofal ysbaid oni bai ei fod yn sefyllfa o argyfwng. Agorwyd Uned Ysbaid benodol ar sail beilot gyda gobaith o ganoli a derbyn arbenigedd gofal ysbaid mewn un cartref. Byddai'n rhaid ymateb i'r mater hwn flwyddyn nesaf er mwyn galluogi'r sustem i fod yn fwy ymatebol a hyblyg.

(c) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â pherfformiad y Gwasanaeth, adroddwyd:

(i) bod y ddau gynllun comisiynu ar gyfer pobl hyn ag anableddau dysgu bellach wedi dyddio a bod trafodaethau yn digwydd gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gomisiynu ar y cyd yn unol â gofynion Bil Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd yr Uwch Reolwr Busnes yn hyderus bod cynlluniau mewn lle a thrwy'r berthynas gyda'r Bwrdd Iechyd rhaid sicrhau adnoddau a'r gweithredu.

(ii) o safbwynt perfformiad cyffredinol bod llawer o waith wedi ei gyflawni a chanrannau a oedd yn eithriadol o isel flwyddyn ddiwethaf bellach wedi cynyddu a thynnwyd sylw at y camau penodol o fewn y cynllun gweithredu.

(iii) Bod Cyngor Gwynedd yn tueddu i wario fwy'r pen ar wasanaethau i bobl dros 65 oed ac yn dueddol o gyfeirio pobl hyn i gartrefi preswyl a nyrsio o'i gymharu ag awdurdodau eraill. Canfuwyd bod angen llawer iawn mwy o amrediad o wasanaethau a ffyrdd o gynnal pobl yn eu cymunedau cyn iddynt gael eu cyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol.

(ch) Mynegwyd bod tueddiad i Wynedd ddenu llawer iawn o fewnfudwyr i ymddeol ac yn arbennig i'r pentrefi arfordirol ac o ganlyniad yn debygol o fod yn gost ychwanegol i'r awdurdod i'w cynnal.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod gwariant y Gwasanaeth yn uwch ar yr arfordir a bod tystiolaeth yn dilyn ymchwil diweddar fod cynnydd o'r boblogaeth hyn yn Ne Meirionnydd ac Abersoch a rhagwelir i'r dyfodol y bydd mwy o ofyn am wasanaethau i bobl hyn ym Meirionnydd.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y gwelir yn ardal Abersoch pan fu cyflwr iechyd y boblogaeth hŷn yn dirywio bod tueddiad iddynt werthu eu heiddo a symud yn ôl at deuluoedd. Nododd ymhellach bod y Cyngor yn edrych ar ddemograffig y boblogaeth hŷn.

(d) Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod llawer o'r materion a godwyd gan yr Arolygiaeth yn bodoli oherwydd bod Gwynedd yn Sir draddodiadol ac i ddiwallu anghenion yn y maes oedolion roedd yn rhaid drwy'r drefn trawsffurfio sicrhau dewisiadau o wasanaethau i bobl gan drafod sut y byddai hynny'n digwydd gyda'r trydydd sector. Dylid ymateb i'r her fel Cyngor cyfan er mwyn adnabod y bylchau drwy drafodaeth ofodol gyda chymunedau o'u hanghenion a beth fyddai'n gweithio orau a derbyniol iddynt.

(dd) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â thaliadau uniongyrchol, nododd yr Uwch Reolwr Busnes bod Grwp Tasg wedi ei sefydlu i adolygu'r gyfundrefn ar weithrediad y taliadau i gynnwys canllawiau statudol, polisïau a strwythurau mewnol. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i wahodd aelod lleol i wasanaethu ar y Grwp Tasg yn ogystal â threfnu sesiwn hyfforddiant i Aelodau ar y gyfundrefn taliadau uniongyrchol.

**Penderfynwyd:** **(a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol:**

- **gyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Craffu hwn ar y cynllun trawsffurfio ym maes oedolion yn dilyn trafodaethau gyda chymunedau Gwynedd o'u hanghenion**

- **trefnu sesiwn hyfforddiant i Aelodau ar y gyfundrefn taliadau uniongyrchol.**

**5. SWYDDOGAETH Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Croesawyd y Prif Weithredwr i'r cyfarfod i ymateb i bryder amlygwyd yng nghyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn bod trefniadau ynghlwm i rôl statudol y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cyfarch gofynion yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a sut gweithredir y rôl statudol yn sgil y newidiadau strwythurol sydd wedi digwydd yn ddiweddar drwy rannu'r Gwasanaeth Oedolion a Gwasanaeth Plant.

Nododd y Prif Weithredwr mai un o brif argymhellion yr adroddiad ydoedd bod lefel swyddogaethau statudol yn cael eu dyrchafu i haen lefel Cyfarwyddwr. O safbwynt ymarfer y rôl nododd ymhellach bod ail-strwythuro yn mynd rhagddo gyda phenodiadau wedi eu gwneud yn ddiweddar i'r swydd Pennaeth Gwasanaeth Plant a'i fod wedi penderfynu secondio swyddog i'r swydd Pennaeth Gwasanaeth Oedolion.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau fynegi barn ac amlygwyd y pryderon isod:

(a) Bod adroddiad AGGCC yn cyfeirio at ddiffyg profiad deilydd swydd y rôl statudol a chwestiynwyd trefniadau ar gyfer hyfforddiant ar gyfer y swyddog a benodwyd.
(b) Y modd y gwnaed penderfyniadau ynglyn â'r newidiadau yng ngwyneb pwysigrwydd atebolrwydd democrataidd i'r Cyngor

Mewn ymateb i'r pryderon uchod, nododd y Prif Weithredwr:

- Ar ôl y penodiad cytunwyd ar becyn datblygu a mentora i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol statudol gyda chefnogaeth ar yr ochr cymhelliant ynghyd â mynychu seminarau, cyrsiau fel dull o hyfforddiant parhaus
- O safbwynt profiad i'r swydd, derbyniwyd cyngor gan arbenigwyr uchel eu parch yn genedlaethol a oedd yn unfrydol eu barn nad oedd yn angenrheidiol i Gyfarwyddwyr / Penaethiaid fod wedi cymhwyso i arwain yn y maes a bod sgiliau trawsffurfio i reoli newid yn fwy pwysig o gofio bod sgiliau ac arbenigedd ar lefel briodol gan yr holl weithwyr yn y Gwasanaeth. Noda un o'r arbenigwyr bod dros 40% o Benaethiaid mewn gwasanaethau oedolion heb gymhwyso a bod awdurdodau yn chwilio am unigolion sydd yn arbenigwyr mewn arwain newid yn benodol.
- Efallai bod rhaid darganfod 23% o arbedion yng Ngwasanaethau Cymdeithasol sef £14.3m ac felly'n hollol amlwg bod angen i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Penaethiaid feddu ar sgiliau arwain newid fel bo'r newid yn gyflymach na fu yn y gorffennol
- o safbwynt ail-strwythuro'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion, eglurwyd mai'r Cabinet sydd yn gyfrifol am y penderfyniad i rannu'r gwasanaethau hynny yn unol ag argymhelliad y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am gynghori ar strwythurau addas ar gyfer y Cyngor. Drwy rannu'r gwasanaethau rhagwelir y gellir gwella deilliannau ar gyfer plant a phriodi'r gwaith ataliol gyda'r gwaith gofalu am blant sy'n golygu cydweithio mwy effeithiol.
- Yng nghyswllt penodi Pennaeth Gwasanaeth Oedolion, hysbysebwyd y swydd ond aflwyddiannus a fu i wneud penodiad. Yn sgil hyn, argymhelliad y Prif Weithredwr yn unol á'i awdurdod i Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ydoedd gweithredu secondiad i sicrhau bod swyddog profiadol yn y swydd.
- Bod Gwasanaethau Oedolion mewn awdurdodau yn Lloegr wedi llwyddo i wneud 20% o arbedion ac wedi gorfod arloesi yn gyflym iawn.
- Hyderir y gellir dysgu o ddulliau gorau i osgoi niwed lleiaf i'r gwasanaethau.
- Y byddir yn cylchredeg Aelodau gyda manylion y strwythur newydd ar gyfer Ebrill.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i'r Prif Weithredwr am yr adroddiad.**

**6. GOFAL DEMENTIA**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal yn amlinellu'r ddarpariaeth o fewn y Sir mewn ymateb i anghenion cyflwr problemau cof (dementia).

Gosododd yr Aelod Cabinet Gofal y cefndir gan nodi bod rhagolygon o gynnydd yn y niferoedd o'r boblogaeth sydd gyda rhyw ffurf o ddementia i'r dyfodol ac roedd yn rhannu'r pryder am ddiffyg gofal dementia yn benodol yn ardal Meirionnydd a phwysigrwydd cydweithio gyda'r trydydd sector a'r Bwrdd Iechyd.
Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu'r adroddiad ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Paham na ellir ymestyn y ddarpariaeth gofal dydd ym Mhlas Hedd, Arfon.

Mewn ymateb, esboniwyd y bwriedir cynnal adolygiad o'r gwasanaeth cyfan yn Arfon a phe byddir yn penderfynu ymestyn y gwasanaeth byddai'n rhaid darganfod cyllid i'w ariannu ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd.

(b) Pryderu y byddir yn cau'r Ganolfan Ddydd ym Mlaenau Ffestiniog sydd yn gofalu am unigolion gyda phroblemau cof o ganlyniad i'r Bwrdd Iechyd agor un diwrnod o wasanaeth yn Ysbyty Blaenau Ffestiniog. Nodwyd ymhellach bod unigolion o Feirionnydd yn cael eu cyfeirio i leoliadau tu allan i'r Sir gyda theuluoedd yn gorfod teithio milltiroedd i ymweld â hwy.

Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai'n ymchwilio i'r wybodaeth ond bod y ffigwr yn newid yn ddyddiol. Y sefyllfa'r wythnos hon ydoedd nad oedd neb yn aros am ofal preswyl na gofal preswyl arbenigol ar draws Gwynedd ond bod sawl unigolyn mewn ysbytai yn disgwyl am leoliadau mewn cartrefi nyrsio. Nodwyd ymhellach bod rhai cartrefi yn llawn ond bod darpariaeth gwelyau preswyl ar gael ond nad ydynt yn ddewis cyntaf yr unigolion.

Cydnabuwyd yn anffodus bod unigolion sydd angen ysbaid arbenigol yn cael eu cyfeirio i leoliadau megis Llangefni a Bae Colwyn. Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystyried sut i gael ysbaid i drigolion Gwynedd drwy gyd-gomisiynu gwely yn y Pines yng Nghricieth.

(c) Bod y boblogaeth oedolion bedair gwaith yn fwy na'r boblogaeth plant a bod gan y Cyngor gyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol i blant ac oni ddylid bod cyfrifoldeb statudol hefyd ar gyfer oedolion.

(ch) O ystyried cyllideb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y gallent mewn cydweithrediad gyda'r Cyngor adeiladu darpariaeth bwrpasol yn Ne Gwynedd a fyddai yn y pen draw yn diwallu anghenion ac yn arbed arian yn y pen draw.

(d) Bod wardiau gwag yn Ysbyty Alltwen ac o ganlyniad roedd adnodd gwerthfawr yn sefyll heb ei ddefnyddio.

(dd) Bod y mater hwn yn flaenoriaeth er gwaethaf yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor o ystyried bod rhagolygon o gynnydd yn y cleifion gyda diffyg darpariaeth ar eu cyfer ac nad oes cynlluniau ar y gweill i'w gweithredu i ymateb i'r broblem. Nodwyd ymhellach bod pobl hyn yn ymddiried yng ngwasanaethau'r Cyngor o'i chymharu â gwasanaeth preifat.

(e) Cyfeiriwyd at gynllun a weithredir yn y Ffindir lle cynigir tai pwrpasol mewn pentrefi ar gyfer gofal preswyl

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Busnes at yr adolygiad strategol a gynhaliwyd 3 / 4 mlynedd yn ôl pryd nodwyd bod prinder gwelyau ar gyfer unigolion gyda dementia yn fwy penodol ym Meirionnydd. Yn deillio o hyn gwahoddwyd cwmnïau allanol i fynegi diddordeb ond yn anffodus ni lwyddwyd i gael diddordeb. Rhaid edrych ar beth all y Cyngor wneud i reoli'r sefyllfa, ac yn fater o edrych yn fasnachol ar sut i reoli a datblygu marchnad a thrafod gydag Adran Economi ac Adfywio o sut i gefnogi cwmnïau allasai gynnig y ddarpariaeth i'r Sir. Opsiynau eraill fyddai cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd gan roi ystyriaeth ar drosi asedau'r Cyngor i'w haddasu yn gartrefi nyrsio ond pwysleisiwyd bod nifer fawr o'r cartrefi yn anaddas gydag ystafelloedd bychan ar safleoedd na ellir eu hymestyn a olygai gost cyfalaf aruthrol i'w haddasu i'r safon angenrheidiol. Nodwyd ymhellach bod rhaid i'r drafodaeth fod yn gorfforaethol.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r sylwadau uchod.**

## 7. AWTISTIAETH

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr David Oliver, Gweithiwr Allweddol Awtistiaeth ar gyflwr awtistiaeth. Gyda chopi ysgrifenedig a chyflwyniad 'power point', cafwyd trosolwg o hanes a diffiniad o anhwylder sbectrwm awtistaidd ynghyd â meini prawf ar gyfer anhwylder Asperger. Rhestrwyd yr isod fel modd o gydnabod y cyflwr:

1. Rhyngweithio cymdeithasol
2. Cyfathrebu
3. Dychymyg

ynghyd a nodweddion eilaidd sy'n cynnwys anawsterau gyda chydsymudedd motor (dyspracsia), gweithgareddau ailadroddus, caeth i reolau, sgiliau a diddordebau arbennig, ynysiad cymdeithasol a phethau'n tarfu ar hwyliau'r person a sensitifedd synhwyraidd.

Yn ogystal, cyflwynwyd taflen yn nodi enghreifftiau o nod, i brofi buddiant swydd Gweithiwr Datblygol Awtistiaeth Gwynedd ac Ynys Môn sef:

- Gweithio ar y cyd gyda Grwp Cefnogi ASA / Aspergers Gwynedd ac Ynys Môn
- Creu cyfleoedd i unigolion gyda'r anhawster sbectrwm awtistiaeth i brofi gwirfoddoli gydag asiantaethau lleol
- Trefnu a chefnogi unigolion i fynychu cyrsiau Addysg Bellach
- Gweithio ar y cyd gydag aelodau Gwasanaeth Iechyd Meddwl
- Cyfeirio a chefnogi unigolion i fynychu prosiectau penodol
- Mynychu cyfarfodydd BCUHB Seicoleg Oedolion i adolygu achosion

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr ynghyd â gwybodaeth ynglyn â Grwp Cynllunio a Budd-ddeiliad

Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ac amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn ag adnabyddiaeth o'r cyflwr a pha mor ddwys yw'r monitro yn y blynyddoedd cynnar, nodwyd bod nifer y cyfeiriadau wedi cynyddu ac fe gaiff y cyflwr ei adnabod gan ymwelwyr iechyd, meddygon teulu, arweinyddion

meithrin ac athrawon, mewn plant i fyny at 9 oed. O 9 oed i fyny CAMHS (Child and Adolescent Mental Health Services) sydd yn asesu yng Ngwynedd.

(b) Gofynnwyd beth yw'r ddarpariaeth i Dde Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod nifer o gyfeiriad o Dde Gwynedd a Dwyfor wedi cynyddu'n ddiweddar a thrwy drafodaethau fe fydd yn brif flaenoriaeth i sefydlu Grwp Oedolion yn Ne Gwynedd ar y cyd gyda'r Gwasanaethau Meddwl o Ysbyty Alltwen. Ar hyn o bryd nodwyd bod Gwasanaeth Dydd a gwasanaethau cefnogol ar gael yn Ne Gwynedd a cynigir cefnogaeth un-i-un i gymryd rhan mewn cymdeithasu / hamddena. Ychwanegwyd o safbwynt rhestr aros i weld seicolegwyr clinigol sicrhawyd na fyddai'r Cyngor yn cael ei farnu gan mai cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd yw'r mater.

(c) Bod rôl y swydd Gweithiwr Datblygol ASA Gwynedd ac Ynys Môn yn gwbl unigryw a'r gwasanaeth a gynigir yn werthfawr. Oherwydd bod bodolaeth y swydd yn ddibynnol ar grant gan Lywodraeth Cymru.

(ch) Mynegwyd pryder bod bylchau yn y ddarpariaeth breswyl i oedolion ifanc a chyfleoedd gwaith. Nodwyd pryder bod teuluoedd yn symud o'r Sir oherwydd bod oedolion ifanc yn methu cael gwasanaethau o fewn y Sir.

Mewn ymateb, cydnabyddai'r Uwch Reolwr Busnes nad oedd cynllun wedi mynd i'r afael ag awtistiaeth ac y bydd rhaid asesu anghenion awtistiaeth ynghlwm a maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu a'u hadeiladu i'r asesiadau a gwneud penderfyniadau anodd iawn o le i gomisiynu a sut i ryddhau adnoddau, ceisio cael y trydydd sector i gynnig gwasanaethau fel bo modd rhannu yn decach. Rhoddwyd sicrwydd y byddir yn cydweithio'n glos gyda Rheolwyr y Gwasanaeth a'r Timau perthnasol i ystyried y ffordd ymlaen yn fanwl. Byddir yn cyflwyno adroddiad yn ôl hefo cynlluniau hollol ymarferol i'r dyfodol.

(d) Mynegwyd pryder am weithrediad Grwp Cynllunio a Budd-ddeiliad ASA ar y cyd Gwynedd ac Ynys Môn yn benodol llwyth gwaith Cadeirydd y Grwp i fedru ymdopi â'r gwaith yn ogystal â sut dyrannir y grant o £80,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau ar draws Gwynedd a Môn.

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd na fyddai modd i'r Pwyllgor Craffu hwn ddylanwadu ar weithrediad y Grwp uchod ac mai cyfrifoldeb aelodau'r Grwp ydoedd hynny. Ychwanegodd y Rheolwr Polisi a Gwireddu Gofal ac Iechyd o safbwynt cenedlaethol y bydd y Llywodraeth yn ail-edrych ar y cynllun gweithredu ac yn ystod cyfnod ymgynghori bydd cyfle i'r Cynghorau a Byrddau Iechyd gynorthwyo drwy roi cyfeiriad gwell i'r Grwp i'r dyfodol.

(dd) Dylai'r gwasanaeth fod ar gyfer Gwynedd gyfan a dylid sicrhau'r ddarpariaeth yn dewis iaith y defnyddwyr.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch yn fawr am y cyflwyniad a'r adroddiad.**

**(b)Gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol roi sylw dyladwy i fabwysiadu'r swydd Gweithiwr Datblygol ASA Gwynedd ac Ynys Môn.**

## 8. DATGANIAD O FWRIAD – DARPARU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL INTEGREDIG

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal â fframwaith newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr angen i gydweithio llawer iawn gwell na wnaed yn y gorffennol a'r weledigaeth ydoedd trafod a chyd-lywodraethu ar sail ranbarthol (Gogledd Cymru). Nodwyd bod Fforwm Sirol wedi ei sefydlu gyda'r Aelod Cabinet Gofal, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phencampwr Gofal Dydd yn gwasanaethu arno ac yn rhan o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodwyd ymhellach bwysigrwydd i adrodd ar gynnydd y Fforwm Sirol i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu'r adroddiad ac fe wnaed y sylw canlynol ganddynt:

- Pwysigrwydd i gymryd i ystyriaeth anghenion lleol megis yr Iaith Gymraeg a thrafnidiaeth
- Bod tueddiad i fodelau'r Llywodraeth fod yn seiliedig ar ardaloedd De Cymru

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 9. YMCHWILIAD CRAFFU – ADDYSG GYMRAEG

Cyflwynwyd briff drafft gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol yn dilyn cytundeb a thrafodaeth yng nghyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn i ymchwilio i Addysg Gymraeg er mwyn asesu:

- sut y gweithredir Polisi Iaith yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol
- y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc

Oherwydd bod nifer o Aelodau yn absennol yn sgil difrod yn eu wardiau o ganlyniad i dywydd garw, awgrymwyd i sefydlu a chymeradwyo'r cylch gorchwyl yng nghyfarfod cyntaf yr Ymchwiliad. Cytunwyd i gylchredeg holl Aelodau'r Pwyllgor Craffu i ganfod diddordeb mewn gwasanaethu yn yr Ymchwiliad.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu gylchredeg holl Aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn i ganfod pwy fyddai â diddordeb mewn gwasanaethu fel rhan o'r Ymchwiliad.**

**(b)Pe byddir yn derbyn mwy o enwebiadau na'r hyn sydd angen, bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn dewis a dethol yr Aelodaeth derfynol.**

**(c)Trafod a mabwysiadu'r gylch gorchwyl yng nghyfarfod cyntaf yr Ymchwiliad Craffu – Addysg Gymraeg.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 1.50 pm

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **10 Ebrill 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg ar berfformiad Ysgolion yr Awdurdod 2012/2013** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Siân Gwenllian** |
| **AWDUR** | **Dewi R Jones, Pennaeth Addysg** |

## Cyflwyniad

### 1. Rhagarweiniad

Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth i ganiatáu i chi, Aelodau Cabinet, graffu ar ganlyniadau diwedd cyfnodau allweddol y flwyddyn addysgol 2012/2013. Yn y cyd-destun hwn, rhaid i ni atgoffa'n hunain bod Fframwaith Estyn ar gyfer arolygu awdurdodau yn gosod disgwyliad arnom, fel rhan o'r broses hunan arfarnu, i allu ateb y math o gwestiynau a restrir isod:

- Sut mae'r Awdurdod yn perfformio yn erbyn y meincnodau a osodir gan Llywodraeth Cymru ar gyfer CA3 a CA4?
- Sut mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu gyda gweddill awdurdodau Cymru?
- A yw perfformiad yn y pynciau craidd yn debyg?
- Ym mha gyfnod allweddol mae'r perfformiad ar ei orau? Ymha agweddau y mae angen gwelliannau?
- A oes ysgolion sydd i'w gweld yn tanberfformio?
- Pa wybodaeth a gawn ni o'r drefn gategoreiddio ddiweddar?

Gobeithio y bydd yr adroddiad o gymorth i chi wrth lunio eich casgliadau am ansawdd perfformiad ein disgyblion ac y byddwch yn dod yn gyfarwydd ag un o'r prif ddatblygiadau yn ein rhaglen waith.

### 2. Sylwebaeth ar berfformiad

Mae Tabl 1 yn dangos % disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yng Ngwynedd dros y pum mlynedd diwethaf mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau unigol.

**Tabl 1: % disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim [PYD]**

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 12.6% | 13.2% | 14.2% | 13.7% | 13.7% |
| **Cymru** | 17.8% | 18.9% | 19.7% | 19.3% | 19.5% |
| **Safle *(1=isaf)**** | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |

Mae'r safle yn dynodi lleoliad Gwynedd mewn cymhariaeth ag awdurdodau Cymru, gyda'r safle isaf yn dynodi'r ganran isaf o ddisgyblion 5-15 oed yn derbyn PYD. Awgryma'r tabl, os derbynnir bod hawl i brydau ysgol am ddim yn fesur priodol o amddifadedd, y dylai perfformiad Gwynedd fod yn y pump uchaf o awdurdodau Cymru h.y. yn gyfartal neu'n uwch na'r safle prydau ysgol am ddim

### 3. Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2

Dengys Tabl 2 y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)* yn 2012 a 2013 a'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar gyfer y blynyddoedd blaenorol, ynghyd â'r ganran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r DPC ar

ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (CA2) **dros yr un cyfnod. Dangosir hefyd safle perfformiad Gwynedd mewn cymhariaeth â gweddill awdurdodau Cymru.

**Tabl 2: % disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn 2012 a'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar gyfer y blynyddoedd blaenorol**

| | CA1 | | | CS* | | CA2** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** |
| **Gwynedd** | 84.2% | 84.9% | 88.0% | 83.0% | 82.8% | 81.3% | 83.2% | 82.8% | 86.2% | 86.6% |
| **Cymru** | 81.1% | 81.6% | 82.7% | 80.5% | 83.0% | 77.0% | 78.2% | 80% | 82.6% | 84.3% |
| **Safle (1=gorau)** | 5 (-1) | 5 (0) | 3 (+2) | 8 (-3) | 13 (-8) | 4 (0) | 2 (+3) | 3 (+2) | 3 (+2) | 6 (-1) |

** Mae'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen yn ddangosydd newydd ers 2012 gan bod disgyblion o'r flwyddyn hon yn cyrraedd diwedd y Cyfnod Sylfaen yn saith oed am y tro cyntaf. Mae'r dangosydd yn dangos y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; a Datblygiad Mathemategol, gyda'i gilydd.*

*** Mae'r Dangosydd Pynciau Craidd yn CA2 yn dangos y ganran o ddisgyblion sy'n ennill o leiaf Lefel 4 mewn Iaith, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd Blwyddyn 6, sef y deilliant disgwyliedig.*

Mae perfformiad yr Awdurdod yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen yn agos iawn i'r ffigwr cyfatebol ar gyfer 2012 ac yn gosod yr Awdurdod yn safle 13 o blith holl Awdurdodau Cymru. Yn y dangosyddion eraill, mae perfformiad yr Awdurdod fel a ganlyn ; *Dangosydd 5+ Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg* 86.9% [safle 10 yn genedlaetho]. Fodd bynnag, rhaid cofio bod safle'r sir o safbwynt y Gymraeg yn isel gan bod canran uchel iawn o ddisgyblion Gwynedd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill]; *Deilliant 5+ Datblygiad Mathemategol* 87.0% [safle 6 yn genedlaethol] a *Deilliant 5+ Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol* 94.2% [safle 9 yn genedlaethol]. Mae perfformiad L6+ ar draws y dangosyddion yn rhagori ar y cyfartaledd cenedlaethol.

Yn CA2 mae perfformiad y DPC yn 2013 ychydig yn uwch na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer 2012 ac yn gosod Gwynedd yn safle 6 o blith holl Awdurdodau Cymru. Mae'r tabl hefyd yn dangos y gwahaniaeth rhwng safle'r DPC a'r safle cinio am ddim. Bydd angen rhoi sylw i gynnal y gwelliannau sydd wedi digwydd mewn ysgolion unigol ac i barhau i herio'r lleiafrif bychan o ysgolion ble'r ystyrir bod tanberfformio neu berfformio cyfforddus.

Mae'r tabl isod (Tabl 3) yn dangos perfformiad diwedd CA2 yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, ynghyd â pherfformiad cyfatebol Cymru.

**Tabl 3: % y disgyblion yn cyflawni lefelau disgwyliedig a lefelau uwch ar ddiwedd CA2 ynghyd â pherfformiad cyfatebol Cymru.**

| | 2009 | | 2010 | | 2011 | | 2012 | | 2013 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwynedd** | **Cymru** | **Gwynedd** | **Cymru** | **Gwynedd** | **Cymru** | **Gwynedd** | **Cymru** | **Gwynedd** | **Cymru** |
| **Cymraeg L4+** | 81.9% | 79.8% | 83.8% | 81.0% | 82.7% | 82.0% | 84.0% | 83.9% | 87.0% | 86.7% |
| **Cymraeg L5+** | 26.7% | 23.9% | 28.0% | 24.4% | 30.3% | 25.8% | 28.8% | 26.6% | 31.8% | 30.4% |
| **Saesneg L4+** | 84.5% | 80.9% | 86.6% | 81.9% | 85.8% | 83.3% | 86.6% | 85.1% | 88.4% | 87.1% |
| **Saesneg L5+** | 29.2% | 27.9% | 32.7% | 28.9% | 34.5% | 30.5% | 33.0% | 32.9% | 34.9% | 35.7% |
| **Maths L4+** | 84.4% | 82.4% | 86.3% | 83.2% | 85.5% | 84.8% | 88.8% | 86.7% | 88.8% | 87.5% |
| **Maths L5+** | 32.2% | 29.3% | 31.5% | 29.2% | 34.4% | 31.1% | 33.9% | 32.8% | 36.4% | 35.6% |
| **Gwydd L4+** | 87.8 | 86.4% | 90.0% | 86.4% | 88.4% | 87.1% | 91.6% | 88.5% | 91.6% | 89.7% |
| **Gwydd L5+** | 31.1% | 30.6% | 32.1% | 30.1% | 34.5% | 30.9% | 33.6% | 33.0% | 35.0% | 36.1% |

Mae perfformiad ar draws y pynciau craidd yn cyfateb yn agos iawn i'r hyn welwyd yn 2012 gyda chynnydd mewn perfformiad L4+ Saesneg [88.4% : +1.8%] a Chymraeg [87.0% : +3.0%] ac ar L5+ mewn Mathemateg [36.4% : +2.5%] a Gwyddoniaeth [35.3% : +1.4%]. Er y gwelliannau a lefel uchel y canrannau sy'n llwyddo, mae angen parhau i herio perfformiad ar draws yr ysgolion ac yn benodol felly yn y lleiafrif bychan o ysgolion ble ystyrir bod tanberfformio neu berfformio cyfforddus.

## 4. Cyfnod Allweddol 3

Yn CA3, mae'r perfformiad yn y DPC wedi bod yn uwch na meincnod disgwyliedig Cymru am y pedair blynedd diwethaf [Tabl 4] ac yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol am y pum mlynedd diwethaf [Tabl 5]. Mae safle Gwynedd hefyd wedi bod yn uwch na'r safle PYD dros y cyfnod [Tabl 5]. Yn 2013, mae'r % sydd wedi ennill y DPC wedi gwella unwaith eto. Yn 2012

a 2013, Gwynedd sydd wedi perfformio orau o holl awdurdodau Cymru ac mae ffigwr 2013 7.4% yn uwch na meincnod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2012.

**Tabl 4: Perfformiad yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru :**

| | DPC Cyfnod Allweddol 3 [CA3] | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** |
| Gwynedd | 70.0% | 73.0% | 77.0% | 84.0% | *86.0% |
| Meincnod** | 67.0% | 69.0% | 74.0% | 78.0% | 82.0% |
| Gwahaniaeth | +3 | +4 | +3 | +6 | +4 |

**Nodir fod amryfusedd ar gyfer DPC Gwynedd yn y Bwletin Ystadegol o'i gymharu â'r hyn gyhoeddir yn y Set Data Craidd*
*** perfformiad disgwyliedig a fodelwyd ar sail cymhwysedd PYD*

**Tabl 5 : % disgyblion sy'n cyflawni'r DPC yn CA3** :

| | Cyfnod Allweddol 3 [CA3] | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** |
| Gwynedd | 69.1% | 72.6% | 76.3% | 83.0% | 85.4% |
| Cymru | 61.3% | 63.7% | 68.0% | 72.5% | 77.0% |
| Safle *(1=gorau)* | 3 | 2 | 3 | 1 | 1 |

**Tabl 6 : % y disgyblion yn cyflawni lefelau disgwyliedig a lefelau uwch ar ddiwedd CA3 ynghyd â pherfformiad cyfatebol Cymru.**

| | 2009 | | 2010 | | 2011 | | 2012 | | 2013 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru |
| Cymraeg L5+ | 78.1% | 75.1% | 76.7% | 76.8% | 83.0% | 81.3% | 86.3% | 84.2% | 90.1% | 87.6% |
| Cymraeg L6+ | 39.1% | 35.1% | 38.3% | 36.4% | 41.9% | 38.2% | 46.2% | 44.9% | 50.2% | 45.7% |
| Saesneg L5+ | 75.3% | 70.6% | 75.7% | 72.5% | 80.0% | 76.0% | 86.0% | 79.3% | 89.5% | 82.9% |
| Saesneg L6+ | 32.9% | 31.7% | 33.0% | 31.3% | 38.8% | 32.1% | 46.9% | 36.3% | 52.3% | 42.6% |
| Mathem L5+ | 77.7% | 73.5% | 79.1% | 75.5% | 82.6% | 77.9% | 86.7% | 81.1% | 89.5% | 83.9% |
| Mathem L6+ | 48.3% | 43.7% | 45.4% | 45.0% | 49.3% | 46.8% | 56.1% | 48.3% | 59.3% | 53.1% |
| Gwyddon L5+ | 79.0% | 75.6% | 81.2% | 77.1% | 85.1% | 80.3% | 90.2% | 83.6% | 92.4% | 87.0% |
| Gwyddon L6+ | 46.4% | 38.5% | 46.9% | 37.0% | 46.6% | 38.9% | 56.6% | 41.3% | 59.2% | 48.5% |

Ar L5+ yn y Gymraeg, mae perfformiad 2013 wedi gosod yr Awdurdod yn safle 5 o blith holl Awdurdodau Cymru [safle 7 yn 2012]. Mae hyn yn dda o gofio maint y garfan gaiff ei hasesu. Yn y Saesneg a Gwyddoniaeth, perfformiad Gwynedd yw'r uchaf o blith holl Awdurdodau Cymru yn 2012 a 2013. Mewn Mathemateg, roedd Gwynedd yn ail uchaf yn 2012 a'r uchaf un yn 2013. Mae'r data uchod yn cadarnhau bod perfformiad ysgolion Gwynedd yn CA3 yn gyson dda.

## 5. Cyfnod Allweddol 4

Mae perfformiad Gwynedd wedi bod ychydig yn is na meincnod Llywodraeth Cymru dros gyfnod treigl. Fodd bynnag, am y tro cyntaf mae perfformiad Gwynedd yn 2013 yn gyffelyb i'r meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Trothwy Lefel 2+ ac yn uwch ar gyfer y Sgôr pwyntiau wedi'i gapio.

**Tabl 7 : Perfformiad yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru :**

| | **2009** | | **2010** | | **2011** | | **2012** | | **2013** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **L2+** | **Sgôr pwyntiau** | **L2+** | **Sgor pwyntiau** | **L2+** | **Sgôr pwyntiau wedi'i gapio** | **L2+** | **Sgôr pwyntiau wedi'i gapio** | **L2+** | **Sgôr pwyntiau wedi'i gapio** |
| **Gwynedd** | 49.8% | 402 | 52.1% | 402 | 53.4% | 327 | 55.0% | 335 | *59% | *358 |
| **Meincnod **** | 53.0% | 406 | 55.0% | 406 | 57.0% | 332 | 58.0% | 343 | 59% | 351 |
| **Gwahaniaeth** | -4 | -4 | -3 | -4 | -4 | -5 | -3 | -8 | 0 | +7 |

**Nodir bod amryfusedd ar gyfer perfformiad Gwynedd yn y Bwletin Ystadegol o'i gymharu â'r hyn gyhoeddir yn y Set Data Craidd*
*** perfformiad disgwyliedig a fodelwyd ar sail cymhwysedd PYD*

Yn gyffredinol, mae perfformiad cymharol Gwynedd wedi bod yn gyson dda yn y mwyafrif helaeth o'r prif ddangosyddion ar draws y cyfnod dan ystyriaeth. Eleni, mae perfformiad yn dangos cynnydd cadarn pellach ar ffigyrau 2012 ym mhob un o'r prif dangosyddion a'r pynciau craidd ac eithrio yn achos y Gymraeg.

Ymhob achos, hefyd, mae'r cynnydd yn fwy na'r cynnydd cenedlaethol :

| Dangosydd | Cynnydd 2012> 2013 Gwynedd | Cynnydd 2012> 2013 Cymru |
|---|---|---|
| TL2+ | +2.99% | +1.65% |
| TL2 | +6.45% | +5.18% |
| TL1 | +4.00% | +1.40% |
| DPC | +4.17% | +0.37% |
| SPC | +18.39 | +9.53 |
| Cymraeg | -3.99% | -0.22% |
| Saesneg | +2.54% | +0.65% |
| Mathemateg | +3.49% | +1.95% |
| Gwyddoniaeth | +13.19% | +4.29% |

Mae hyn yn adeiladu ymhellach ar y raddfa welliant welwyd rhwng 2009-2012.

Mae perfformiad Gwynedd mewn cymhariaeth ag awdurdodau Cymru yn dda [gweler y tabl isod]. Mae safle prydau cinio am ddim [PYD] Gwynedd yn 5ed o'r holl awdurdodau yng Nghymru. Mae perfformiad Gwynedd yn y Trothwy Lefel 1 [TL1], Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg [TL2+], y Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] a'r Sgor Pwyntiau wedi'i Gapio [SPC] yn uwch na safle PYD yr Awdurdod sy'n dda. Mae'r Trothwy Lefel 2 [TL2] yn 8fed a felly yn is na'r disgwyliad er ei fod wedi codi o'r 10fed safle yn 2012.

**Tabl 8: Perfformiad disgyblion 15 oed mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau eraill**

| Gwynedd | 2010 | | 2011 | | 2012 | | 2013 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | Safle | % | Safle | % | Safle | % | Safle |
| TL1 | 91.1 | 9 | 92.9 | 4 | 93.1 | 8 | 97.1% | 2 |
| TL2 | 67.4 | 5 | 70.7 | 8 | 75.1 | 10 | 81.5% | 8 |
| TL2+ | 52.1 | 6 | 53.4 | 6 | 55.0 | 6 | 58.0% | 4 |
| DPC | 51.9 | 5 | 52.3 | 5 | 53.2 | 5 | 57.3% | 3 |
| SPC | 315.0 | 4 | 327.1 | 3 | 335.0 | 8 | 353.4 | 2 |
| Cymraeg | 71.2 | | 74.7 | | 76.8 | | 72.56% | |
| Saesneg | 63.9 | | 64.2 | | 64.1 | | 66.43% | |
| Mathemateg | 55.2 | | 57.0 | | 58.7 | | 61.32% | |
| Gwyddoniaeth | 66.6 | | 66.0 | | 71.5 | | 84.46% | |
| TL1 | Trothwy Lefel 1 : dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. | | | | | | | |
| TL2 | Trothwy Lefel 2 : dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A*i C. | | | | | | | |
| TL2+ | Trothwy Lefel 2+ : dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A*i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. | | | | | | | |
| DPC | Dangosydd Pynciau Craidd : % dysgwyr sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd | | | | | | | |
| SPC | Sgôr Pwyntiau Wedi'i Gapio : cyfartaledd pwyntiau'r wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio | | | | | | | |

Mae perfformiad cymharol felly yn gyffredinol gadarn gyda'r safle yn y mwyafrif helaeth o'r dangosyddion yn uwch neu'n agos iawn i'r safle PYD a hynny dros gyfnod treigl.

Yn 2012, roedd Gwynedd yn perfformio'n uwch na Chymru ymhob un o'r pynciau craidd. Mae hyn yn wir yn 2013 hefyd ac eithrio yn achos y Gymraeg sydd -0.79% yn is na Chymru eleni. Fodd bynnag, rhaid cofio maint y cohort sy'n cael ei asesu yn y famiaith mewn cymhariaeth ag ardaloedd eraill. Mae'r cynnydd treigl mewn Saesneg rhwng 2008-9 a 2012-13 yn well na'r cynnydd cenedlaethol a ffigwr 2013 +3.77% yn uwch na Chymru; cynnydd treigl Mathemateg hefyd yn well na'r cenedlaethol a ffigwr 2013 1.86% yn uwch na Chymru; cynnydd treigl Gwyddoniaeth bellach yn well na'r hyn welir ar lefel cenedlaethol a ffigwr 2013 +9.82% yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn 2013, yn ddieithriad, mae perfformiad dysgwyr PYD CA4 yn y prif ddangosyddion yn well yn yr Awdurdod na'r ffigwr cyfatebol cenedlaethol. Mae'r cynnydd ym mherfformiad dysgwyr PYD hefyd yn sylweddol uwch yng Ngwynedd na'r hyn welir yn genedlaethol ar gyfer pob dangosydd. Mae'r gwahaniaeth PYD/Dim PYD gydag ambell eithriad yn well neu'n debyg i'r hyn a geir yn genedlaethol dros gyfnod treigl. Mae hyn yn dda. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i berfformiad y grwp penodol yma o ddysgwyr mewn rhai ysgolion unigol yn ogystal â rhoi sylw cyffredinol i'r maes.

Dygir sylw at y ffaith fod canran y disgyblion sydd yn gadael addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig [boed yn gadael neu yn parhau mewn addysg llawn amser] wedi lleihau dros y cyfnod 2009-2013 ac yn cymharu'n dda iawn gyda'r ffigwr cenedlaethol cyfatebol. Mae'r ffigwr ar gyfer 2012 a 2013 yn rhagorol [gweler isod].

**Tabl 9 : % rhai 15 oed sy'n ennill dim cymwysterau ac yn gadael addysg llawn amser/heb fod yn adael addysg llawn amser.**

| Gadael heb gymhwyster ac yn gadael addysg llawn amser | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** |
| Gwynedd | 0.14 | 0.21 | 0.14 | 0.00 | 0.00 |
| Cymru | 0.89 | 0.79 | 0.61 | 0.43 | 0.32 |
| **Gadael heb gymhwyster heb fod yn gadael addysg llawn amser** | | | | | |
| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** |
| Gwynedd | 1.14 | 0.63 | 0.57 | 0.31 | 0.14 |
| Cymru | 2.31 | 1.93 | 1.74 | 1.40 | 1.18 |
| | | | | | |

## 6. Perfformiad Ysgolion Unigol

Er bod perfformiad treigl Gwynedd yn CA4 wedi bod yn gyson gadarn gyda'r Awdurdod yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws mwyafrif helaeth o'r dangosyddion, yn cymharu'n weddol agos at safle disgwyliedig PYD ac yn cymharu'n ffafriol gyda phroffil nifer o Awdurdodau eraill rhanbarth y gogledd, roedd y sefyllfa gyffredinol yn cuddio amrywiaethau sylweddol mewn perfformiad ar draws ysgolion. Mynegwyd pryder am berfformiad ychydig llai na hanner yr ysgolion uwchradd ac yn benodol felly yng nghyd destun perfformiad yn y TL2+ a phwnc Mathemateg. Yn 2011-12 gweithredwyd ar gynlluniau dwys o dargedu cynhaliaeth ac er i hynny arwain at welliannau mewn nifer o'r ysgolion, nid oedd y cynnydd yn ddigonol i'w codi o'r 50.0% isaf. Yn ystod 2012-13, yn dilyn targedu penodol gan yr Awdurdod a'r Gwasanaeth Rhanbarthol, gwelwyd gwelliannau sylweddol yn yr ysgolion fu'n destun pryder, sef yr ysgolion y cyfeiriwyd yn benodol atynt yn ystod Arolygiad Estyn o'r Awdurdod – Brynrefail, Syr Hugh Owen, Dyffryn Nantlle, Ardudwy, Tywyn. Mae cynnydd sylweddol yn nifer o'r dangosyddion hyn. Fodd bynnag, mae agweddau sydd angen sylw yn nifer o'n hysgolion ac yr ydym yn cydweithio â hwy yn ystod 2013/2014 i roi sylw i'r prif faterion.

## 7. Profion Darllen

Mae canlyniadau y profion darllen gynhaliwyd mewn Saesneg yn nodi bod 11.5% o'r dysgwyr ar draws y cyfnodau allweddol yn cyrraedd sgôr safonedig is na 85. Y ffigwr cenedlaethol ydy 11.2%. Mae perfformiad 2013 yn gosod Gwynedd yn safle 14 o blith holl Awdurdodau Cymru. Roedd gan 62.0% gyda sgôr safonedig o rhwng 85-115 [59.4% yn genedlaethol] a chan 23.9% sgôr safonedig o dros 115 [26.0% yn genedlaethol]. Mae hyn yn gosod Gwynedd yn safle 17 o blith holl Awdurdodau Cymru. Cafwyd perfformiad cadarn yn y Gymraeg a chan 6.5% yn unig sgôr safonedig o dan 85; 54.3% rhwng 85-115 a 36.2% dros 115. Nid oes cymhariaeth genedlaethol ystyrlon yn y Gymraeg o gofio maint y cohort yng Ngwynedd.

## 8. Ôl-16

Mae'r ganran o bobl ifanc 17 mlwydd oed sy'n cyflawni L3 wedi gwella eto eleni gyda 98.5% yn croesi'r trothwy. Mae hwn yn gynnydd pellach o 1.7% ar ffigwr 2012 ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 98.4%. Mae'r ganran a enillodd raddau A-E ar draws yr holl byncia Lefel A [98.1%] hefyd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Mae'r Sgor Pwyntiau Cyfartalog Ehangach wedi cynyddu hefyd [883.6 eleni a chynnydd o 65.2] ac mae'r ffigwr yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol [+104.6]. Mae hyn yn dda

## 9. Bagloriaeth Cymru 14-16 ac 16+

Mae perfformiad yn y BAC yn gadarn iawn eto eleni gyda 93.2% [207 o ddysgwyr] ar draws 6 sefydliad yn ennill y diploma llawn ar y Lefel Uwch; ac ar draws 11 sefydliad, 92.5% [598 o ddysgwyr] yn ennill y diploma llawn ar y Lefel Ganolradd a 85.4% [165 dysgwr] yn llwyddo i ennill y diploma llawn ar y Lefel Sylfaenol.

## 10. Presenoldeb

Mae presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd wedi cynyddu yn sylweddol yn 2013 gyda chynnydd o 1.25% yng Ngwynedd o'i gymharu â chynnydd o 0.49% yn genedlaethol. Golyga hyn fod y nifer o ysgolion sydd yn y chwartel isaf yn y meincnodau PYD wedi gostwng o 71.4% [10 ysgol] yn 2012 i 14.3% [2 ysgol] yn 2013. Nid yw data ysgolion cynradd wedi ei gyhoeddi ar hyn o bryd.

## 11. Deilliannau Arolygiadau Ysgolion

Yn ystod blwyddyn addysgol 2012-2013, cynhaliodd Estyn arolygiad yn 18 o ysgolion Gwynedd. Mewn 10 [55.5%] o'r rheiny, dyfarnwyd barn Da i bob Cwestiwn Allweddol ac i'r ddwy Farn Gyffredinol. Mewn 2 ysgol, dyfarnwyd bod angen rhoi sylw pellach i rai agweddau penodol ac y dylai'r Awdurdod fonitro cynydd. Mewn 2 ysgol arall, nodwyd y byddai Estyn yn cynnal ymweliad monitro pellach ymhen blwyddyn. Fodd bynnag, dyfarnwyd bod agweddau anfoddhaol mewn 4

ysgol [3 cynradd ac 1 uwchradd] ac fe'u gosodwyd mewn categori statudol Gwelliant Sylweddol. Mae'r Awdurdod a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol wedi gweithio'n agos gyda'r ysgolion hyn i weithredu ar gynlluniau cadarn a miniog.

## 12. Materion sy'n codi o'r adroddiad :

- Parhau i dargedu ysgolion ble gwelir tanberfformiad
- Parhau i fonitro ac arfarnu cynnydd yn yr ysgolion a'r adrannau a dargedir
- Parhau i fanylu ar berfformiad disgyblion mewn Mathemateg a Saesneg yn CA4
- Crynhoi'r arferion da a sefydlwyd yn yr adrannau ble roedd y tangyflawni amlycaf
- Sicrhau cynaliadwyedd yr arferion da hyn yn ogystal â chynaliadwyedd yr arferion da hynny o arweinyddiaeth a hyrwyddodd ac a sicrhaodd y gwelliannau
- Manylu ar brosesau ac arferion tracio cynnydd disgyblion a hyrwyddo'r drafodaeth ar lefel Awdurdod a'r rhanbarth
- Manylu ymhellach [a hynny yng nghyd-destun tracio cynnydd] ar brosesau ac arferion yr ysgolion o bennu targedau

## 13. Tabl 10 : Crynhoi Perfformiad y Sir.

| Crynhoi Perfformiad Gwynedd ar draws y Cyfnodau Allweddol | |
|---|---|
| **CA1/CS** | Digonol |
| **CA2** | Da |
| **CA3** | Rhagorol |
| **CA4** | Digonol |

## 14. Categoreiddio Ysgolion

Mae Adran 197 o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi'n glir bod gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd gyfreithiol i ffurfio Cytundebau Partneriaeth gyda Chyrff Llywodraethol ysgolion a gynhelir. Mae'r Cytundebau Partneriaeth hyn yn diffinio'r lefel o gefnogaeth a her sydd ei hangen ar ysgolion er mwyn gwella a chodi safonau.

Ym mis Chwefror 2014, dilynwyd proses i osod ysgolion Gwynedd mewn categorïau ar sail y lefel o gefnogaeth a her sy'n briodol iddynt. Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn diffinio'r pedwar categori o gefnogaeth a her fel a ganlyn:

- ➢ ysgolion sydd angen lleiafswm o fonitro a chefnogaeth
- ➢ ysgolion sydd angen monitro a chefnogaeth ysgafn
- ➢ ysgolion sydd angen monitro a chefnogaeth bendant
- ➢ ysgolion sydd angen monitro a chefnogaeth sylweddol

Mae Arweinwyr System Gwasanaeth Effeithiolrwydd Gogledd Cymru (GwE) yn dod i farn ynglŷn â deilliannau ac arweinyddiaeth ysgolion (yn dilyn ymweliadau tymhorol) yn unol â diffiniad y Matrics Rhanbarthol. Defnyddiwyd y barnau hyn, ynghyd â barn broffesiynol yr Arweinwyr System a Swyddogion Yr Awdurdod, er mwyn gosod ysgolion mewn categorïau ar sail y lefel o gefnogaeth a her sy'n briodol iddynt. Mae'r tablau isod yn crynhoi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â dosraniad yr ysgolion yn y gwahanol gategorïau o'r Cynllun Partneriaeth. Ceir rhestr lawn o gategorïau'r ysgolion isod.

**Tabl 11 : Crynhoi sefyllfa gategoreiddio Ysgolion Gwynedd [Cytundeb Partneriaeth]**

**Categoreiddio Ysgolion Gwynedd – Chwefror 2014 (crynodeb)**

**Dalgylchoedd**

| Dyffryn Ogwen (7) | | Brynrefail (8) | | Dyffryn Nantlle (10) | | Friars / Tryfan (12) | | Syr Hugh Owen (10) | | Tywyn (5) | | Y Gader (10) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 3 | 42.9 | 0 | 0 | 3 | 30 | 3 | 25 | 1 | 10 | 0 | 0 | 1 | 10 |
| 3 | 42.9 | 7 | 87.5 | 4 | 40 | 4 | 33.3 | 3 | 30 | 0 | 0 | 5 | 50 |
| 1 | 14.3 | 0 | 0 | 3 | 30 | 2 | 16.7 | 4 | 40 | 5 | 100 | 3 | 30 |
| 0 | 0 | 1 | 12.5 | 0 | 0 | 3 | 25 | 2 | 20 | 0 | 0 | 1 | 10 |

| Y Moelwyn (7) | | Y Berwyn (6) | | Ardudwy (8) | | Glan Y Môr (10) | | Botwnnog (10) | | Eifionydd (8) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 2 | 28.6 | 3 | 50 | 0 | 0 | 1 | 10 | 1 | 10 | 0 | 0 |
| 4 | 57.1 | 1 | 16.7 | 3 | 37.5 | 7 | 70 | 8 | 80 | 5 | 62.5 |
| 1 | 14.3 | 2 | 33.3 | 5 | 62.5 | 1 | 10 | 1 | 10 | 3 | 37.5 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Uwchradd (14) | | Cynradd (97) | | Arbennig (2) | | Unedau Cyfeirio (2) | | Yr Awdurdod (115) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 2 | 14.3 | 16 | 16.5 | 1 | 50 | 0 | 0 | 19 | 16.5 |
| 3 | 21.4 | 51 | 52.6 | 0 | 0 | 1 | 50 | 55 | 47.8 |
| 7 | 50 | 24 | 24.7 | 1 | 50 | 0 | 0 | 32 | 27.8 |
| 2 | 14.3 | 6 | 6.2 | 0 | 0 | 1 | 50 | 9 | 7.8 |

## Categereiddio Ysgolion

## Ysgolion Cynradd

| | Gwynedd : Cynradd | Categori Estyn | Categori ALl |
|---|---|---|---|
| Dyffryn Ogwen | | | |
| 1 | Bodfeurig** | | |
| 2 | Penybryn, Bethesda | | |
| 3 | Llanllechid | | |
| 4 | Rhiwlas, Bangor | | |
| 5 | Abercaseg (Babanod), Bethesda | | |
| 6 | Tregarth** | | |
| Brynrefail | | | |
| 1 | Gwaun Gynfi | | |
| 2 | Llanrug | | |
| 3 | Bethel | | |
| 4 | Cwm y Glo | | |
| 5 | Dolbadarn | | |
| 6 | Penisarwaun | | |
| 7 | Waunfawr | | |
| Dyffryn Nantlle | | | |
| 1 | Bronyfoel | | |
| 2 | Brynaerau | | |
| 3 | Carmel | | |
| 4 | Groeslon | | |
| 5 | Llanllyfni | | |
| 6 | Baladeulyn | | |
| 7 | Nebo | | |
| 8 | Bro Lleu | | |
| 9 | Talysarn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Friars/Tryfan | | | |
| 1 | Glanadda | GS | |
| 2 | Glancegin | MA | |
| 3 | Babanod Coedmawr | | |
| 4 | Garnedd | | |
| 5 | Felinheli | | |
| 6 | Hirael | | |
| 7 | Faenol | | |
| 8 | Llandygai | | |
| 9 | Cae Top | | |
| 10 | Ein Harglwyddes | GS | |
| Syr Hugh Owen | | | |
| 1 | Gelli | | |
| 2 | Felinwnda | | |
| 3 | Rhosgadfan | | |
| 4 | Rhostryfan | | |
| 5 | Hendre | GS | |
| 6 | Bontnewydd | | |
| 7 | Maesincla | | |
| 8 | Llandwrog | | |
| 9 | Santes Helen | | |
| Tywyn | | | |
| 1 | Craig y Deryn | ME | |
| 2 | Dyffryn Dulas++ | ME | |
| 3 | Penybryn | | |
| 4 | Pennal ++ | | |
| Gader | | | |
| 1 | Clogau | | |
| 2 | Brithdir** | | |
| 3 | Dinas Mawddwy++ | | |
| 4 | Ganllwyd | | |
| 5 | Llanelltyd | | |
| 6 | Ieuan Gwynedd** | MA | |
| 7 | Friog | GS | |
| 8 | Llanfachreth | | |
| 9 | Dolgellau | | |
| Moelwyn | | | |
| 1 | Bro Cynfal** | | |
| 2 | Edmwnd Prys** | | |
| 3 | Manod | | |
| 4 | Tanygrisiau | | |
| 5 | Bro Hedd Wyn | | |
| 6 | Maenofferen | | |
| Berwyn | | | |
| 1 | Bro Tegid | | |
| 2 | O.M.Edwards | | |
| 3 | Bro Tryweryn | | |
| 4 | Ffridd y Llyn | | |
| 5 | Beuno Sant | | |
| Ardudwy | | | |
| 1 | Traeth | | |
| 2 | Dyffryn Ardudwy | | |
| 3 | Llanbedr | | |
| 4 | Garreg | | |
| 5 | Cefn Coch | | |
| 6 | Talsarnau | | |
| 7 | Tan y Castell | ME | |

| Glan y Mor | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Abererch | | |
| 2 | Chwilog | GS | |
| 3 | Bro Plenydd | | |
| 4 | Llanaelhaearn | | |
| 5 | Llanbedrog | | |
| 6 | Llangybi | | |
| 7 | Pentreuchaf | | |
| 8 | Eifl | | |
| 9 | Cymerau | | |
| **Botwnnog** | | | |
| 1 | Nefyn | | |
| 2 | Abersoch | | |
| 3 | Crud y Werin | | |
| 4 | Edern | | |
| 5 | Babanod Morfa Nefyn | | |
| 6 | Sarn Bach | | |
| 7 | Tudweiliog | | |
| 8 | Pont y Gof | | |
| 9 | Foelgron | | |
| **Eifionydd** | | | |
| 1 | Beddgelert | | |
| 2 | Borth y Gest | | |
| 3 | Treferthyr | | |
| 4 | Garndolbenmaen | | |
| 5 | Eifion Wyn | | |
| 6 | Gorlan | | |
| 7 | Llanystumdwy | | |
| **Ysgolion Arbennig** | | | |
| 1 | Pendalar | ME | |
| 2 | Hafod Lon | | |
| **Unedau Cyfeirio** | | | |
| 1 | Llwybrau Ni | MeArb | |
| 2 | Brynffynnon | | |

**Ysgolion Uwchradd**

| | Gwynedd : Uwchradd | Bandio | Categori Estyn | Categori ALl |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ardudwy | 1 | | |
| 2 | Berwyn | 3 | ME | |
| 3 | Botwnnog | 1 | ME | |
| 4 | Brynrefail | 3 | GS | |
| 5 | Dyffryn Nantlle | 2 | | |
| 6 | Dyffryn Ogwen | 2 | | |
| 7 | Eifionydd | 3 | | |
| 8 | Friars | 3 | | |
| 9 | Gader | 3 | | |
| 10 | Glan y Mor | 4 | | |
| 11 | Moelwyn | 1 | | |
| 12 | Syr Hugh Owen | 4 | | |
| 13 | Tryfan | 3 | MA | |
| 14 | Tywyn | 3 | | |

**Allwedd: MA – Monitro Awdurdod**
**ME – Monitro Estyn**
**GS - Gwelliant Sylweddol**
**MeArb – Mesurau Arbennig**

**ATODIAD ‘A’**

Yn eich cyfarfod paratoi ar gyfer Y Pwyllgor Craffu hwn, fe gyfeiriwyd gennych at faterion penodol y dymunech i ni roi sylw iddynt.

Er mwyn delio’n drefnus efo hyn, fe nodwn eich cwestiwn/sylw i ddechrau, ac yna ein hymateb.

**1.** *Mae perfformiad TL2+2013 yn 59% (cynnydd o 4% ar y flwyddyn flaenorol). Pa gamau sydd wedi eu cymryd i sicrhau'r gwelliant hynny a pha gamau penodol sydd yn eu lle i geisio cyrraedd y targed o 65% a osodwyd ar gyfer 2015?*

- Sicrhawyd cefnogaeth a her briodol i’r ysgolion trwy ymweliadau monitro tymhorol. Rhoddwyd pwyslais ychwanegol ar wirio addasrwydd targedau a chynnydd tuag at atynt. Trwy drefn gategoreiddio llwyddwyd i dargedu cynhaliaeth ychwanegol i’r 5 ysgol oedd yn peri pryder yn 2012. Yn 2013, ar gyfartaledd, gwelwyd cynnydd yn y TL2+ o 15% ym mherfformiad y 5 ysgol a dargedwyd [Brynrefail, Dyffryn Nantlle, Ardudwy, Tywyn a Syr Hugh Owen]. Mae gweithredu cyffelyb yn 2013-14 ble targedir cynhaliaeth i’r ysgolion ble mae pryder am berfformiad yn y TL2+. Yn yr achosion hyn cytunir ar gynllun gweithredu gyda’r Pennaeth a’r Corff Llywodraethol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed cenedlaethol o 65% yn 2015. Mae hwn yn darged heriol. Yn 2013, roedd perfformiad Cymru yn y TL2+ yn 52.7% . Mae’r cynnydd mae Gwynedd wedi ei wneud dros y pum mlynedd ddiwethaf [+8.16%] yn fwy na’r cynnydd cenedlaethol [+5.54%] ac mae perfformiad 2013 yn cyfateb i’r meincnod cenedlaethol ar gyfer yr ALl.

**2.** *Mae gan y Cyngor brosiect penodol “Hyrwyddo Ansawdd Mewn Ysgolion Uwchradd"- Beth yn benodol sydd ar waith yn y prosiect hwnnw i sicrhau cynnydd?*

- Rhoddir eitem ar faes ansawdd addysg ymhob cyfarfod penaethiaid uwchradd.
- Ymwelwyd â 13 o’r ysgolion uwchradd er mwyn casglu gwybodaeth am agweddau penodol a chanfod arferion da i’w lledaenu.
- Mae trafodaethau wedi cychwyn rhwng cynrychiolwyr o’r ysgolion, GwE a CYNNAL i sefydlu system dracio ar draws yr Awdurdod, yn ogystal â threfnu diwrnod ar y cyd ag ysgolion Môn i rannu arfer da ym maes gosod targedau, asesu, tracio cynnydd ac ymyrraeth llwyddiannus.
- Cyflwynwyd a chytunwyd ar egwyddorion cydweithio ysgol i ysgol mewn cyfarfod o’r penaethiaid uwchradd.
- Sefydlwyd is-grwp HMS. Mae’r grŵp yma wedi llunio model ar gyfer diwrnod datblygiad proffesiynol i athrawon a chymorthyddion uwchradd. Deilliant y diwrnod yma fydd cydweithio o fewn a rhwng ysgolion ar agweddau penodol – addysgu , llythrennedd a rhifedd. Bydd trefniadau pellach yn cael eu gwneud ar gyfer timau rheoli.
- Mae is-grŵp Arweinyddiaeth y Grŵp Arfer Da yn creu pecyn hyfforddiant ar gyfer arweinwyr canol. Cyflwynodd yr Awdurdod gais i’r Llywodraeth i 9 ysgol uwchradd fod yn rhan o raglen ddatblygu arweinyddiaeth . Mae cynnig hyfforddiant i reolwyr canol pob ysgol uwchradd yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

- Rhoddwyd arweiniad i benaethiaid ar yr arferion gorau ar draws ysgolion Cymru o ran cefnogi dysgwyr bregus a chyngor iddynt ar y defnydd posib o'r grantiau sydd ar gael i sicrhau cynnydd y grŵp yma o ddysgwyr.

**3.** *Pa waith dilynol sydd yn digwydd yn yr ysgolion hynny lle mae Estyn wedi nodi bod angen gwaith pellach? Pa gamau sydd yn eu lle i gydweithio gydag ysgolion sydd yng nghategorïau oren (monitro a chefnogaeth bendant) a choch (monitro a chefnogaeth sylweddol) Estyn? Yn benodol hefyd, beth yw natur y "cymorth" sydd yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod a GwE i'r ysgolion hynny.*

Mae cynhaliaeth wedi'i chyflwyno i bob un o'r ysgolion oren/coch a chategori Estyn parthed llunio cynllun gweithredu. Fel rhan o'r cynlluniau hynny amlinellir y gefnogaeth sy'n ddyledus i'r ysgolion trwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae hyd a lled y gynhaliaeth yn ddibynnol ar natur yr argymhellion ee mewn rhai achosion, gwelir gweithredu penodol gan yr Arweinydd System. Mewn achosion eraill caiff cynhaliaeth arbenigol bynciol/gwricwlaidd ei chomisiynu yn allanol neu trwy weithredu ysgol>ysgol. Yn yr uwchradd, sefydlwyd rhwydwaith o uwch arweinwyr o blith ysgolion categori oren/coch er mwyn rhoi sylw i agweddau datblygol ar y cyd. Yn y cynradd, mae sawl arfer o groes beillio wedi digwydd rhwng ysgolion categoriau oren/coch a rhai gwyrdd/melyn. Mae enghreifftiau hefyd ble comisiynwyd cefnogaeth gan Bennaeth llwyddiannus a gan Ymgynghorwyr Allanol gyda phrofiad o arolygu. Mae hwn yn becyn cyfoethog o gynhaliaeth.

**4.** *Un o'r materion o Arolwg Estyn a godwyd hefyd yn yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg oedd gwaith tracio datblygiad disgyblion. Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn o ran hynny?*

Yn yr uwchradd, mae sesiwn o arfer da wedi'i chyflwyno mewn grwpiau strategol ac mae'r rhwydwaith o uwch reolwyr wedi rhoi sylw penodol i'r maes gan dynnu ar arfer da o ALl arall. Mae model o arfer da iawn wedi'i ddatblygu mewn ysgol yn lleol hefyd ac mae'r datblygiad yn cael ei raeadru i ysgolion eraill er mwyn ceisio sicrhau gwell defnydd o system SIMS wrth dracio. Mae gwaith pellach ar droed i sicrhau bod defnydd priodol yn cael ei wneud o ddata tracio ar draws yr ysgol ac mae'r maes wedi cael sylw fel rhan o ymweliad monitro tymhorol yr ALl. Yn y cynradd, mae nifer sylweddol o ysgolion yn defnyddio rhaglen fasnachol INCERTs ac mae hyn wedi miniogi'r hyn sydd ar waith. Trefnwyd cynhadledd i Benaethiaid Cynradd er mwyn rhaeadru'r arferion gorau yn y maes. Fodd bynnag, mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau cysondeb ar draws y sector. Her arall fydd sicrhau bod cyfundrefnau priodol yn eu lle i :

dracio cynnydd yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhif
sefydlu system dracio ar lefel ALl

**5.** *Mae'r adroddiad yn adrodd cynnydd ar amryw o ddangosyddion o 2012 i 2013 ac o gymharu â gweddill Cymru heblaw yn y Gymraeg. Beth yw'r rheswm dros hynny?*

Roedd hunan arfarniad y Cyngor ar gyfer yr arolwg diweddar yn rhoi sylw manwl i'r maes yma ac yn amlygu'n glir anhegwch y sefyllfa gymharol. Mae'r ganran ar gyfer y Gymraeg yn seiliedig ar nifer o ymgeiswyr yn hytrach na'r cohort cyfan. Mae perfformiad yn y Gymraeg yn dda [os nad yn dda iawn] yng Ngwynedd o gofio'r ganran uchel iawn o'r cohort [yr uchaf

yng Nghymru] sy'n dilyn iaith gyntaf. Fel canlyniad, ni ellir gwneud cymhariaeth ystyrlon gyda pherfformiad yn y mwyafrif helaeth o awdurdodau eraill. Mewn rhai awdurdodau mae'r ganran sy'n llwyddo yn y Gymraeg yn uchel ond mae'r ganran o'r cohort sy'n dilyn iaith gyntaf yn hynod o isel.


**6**. *Mae'r pwyllgor yn falch o weld y wybodaeth fesul ysgol am y tro cyntaf. Fodd bynnag, byddai o fudd i'r ysgol pe bai modd darparu gwybodaeth am yr asesiad o ysgolion unigol i weld a oes patrwm o gynnydd neu gysondeb mewn ysgolion unigol – A oes modd darparu gwybodaeth am y 2/3 blynedd diwethaf i weld a oes patrwm?*

Gan bod trefn ddiwygiedig o gategoreiddio yn mynd i fod yn weithredol o Ebrill 2014 a bod meini prawf y categoreiddio hwnnw yn wahanol i'r hyn sydd ar waith gennym, ni ellir gwneud dadansoddiad dilys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gellir ymateb i'r cais hwn o 2014 ymlaen.

---

**Sleidiau**

Ymhellach, fe welwch 4 sleid y dymunir eu defnyddio yn gyflwyniad i'r eitem hon.



# Llwyddiannau

1. **Cyfnod Sylfaen** – perfformiad y disgyblion uchaf eu cyrhaeddiad.
2. **CA2** – 6ed safle o ran perfformiad yn genedlaethol. Perfformiad cadarn yn y prif ddangosydd [*DPC*] am y bumed flwyddyn o'r bron – perfformiad cyson dda.
3. **CA3** - y perfformiad gorau yn genedlaethol o holl awdurdodau Cymru yn y prif ddangosydd [*DPC*] gyda'r ffigwr yn sylweddol uwch na meincnod Llywodraeth Cymru (yn uwch o 4%). Y perfformiad treigl yn dangos cynnydd.
4. **CA4** - perfformiad sydd cystal a gwell na'r meincnodau cenedlaethol, a hynny am y tro cyntaf.
   - Perfformiad dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn sylweddol uwch yng Ngwynedd na'r hyn a welir yn genedlaethol ar gyfer pob dangosydd.
   - Cynnydd sylweddol yn y *Trothwy Lefel 2+* [+2.99%]. Perfformiad Gwynedd yn gyffelyb i'r meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn uwch ar gyfer y *Sgôr Pwyntiau Wedi'i Capio* am y tro cyntaf.
   - Gwelliannau sylweddol ym mherfformiad y 5 ysgol uwchradd fu'n destun pryder, ac y cyfeiriwyd yn benodol atynt yn ystod Arolygiad Estyn o'r Awdurdod.
5. **Disgyblion heb gymhwyster** – Canran y disgyblion sydd yn gadael addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig yn rhagorol [0%].
6. **Profion darllen** BL 3 – 9 – perfformiad cadarn yn Y Gymraeg.
7. **Presenoldeb Uwchradd** – wedi cynyddu yn sylweddol gyda chynnydd o 1.25% yng Ngwynedd o'i gymharu â chynnydd o 0.49% yn genedlaethol.
8. **Cyffredinol** – perfformiad da sy'n cadarnhau ein bod ar y trywydd cywir.

www.gwynedd.gov.uk

# Materion a deilynga sylw

1. **Cyfnod Sylfaen** – perfformiad yn y prif ddangosydd [*DCS*] yn is na'r disgwyliad - angen manylu ar ansawdd a chywirdeb asesiadau.
2. **CA2** – cynnal gwelliannau a herio tanberfformio. Lle yma eto i fanylu ar yr asesiadau.
3. **CA3** - yr angen i ddehongli asesiadau yng nghyd-destun cyflawniadau yn CA4 e.e. Mathemateg.
4. **CA4** - parhau i roi sylw i'r holl ddangosyddion.
   - Sylw pellach i'r dangosydd TL2 wrth baratoi'r ysgolion at y BAC ar ei newydd wedd yn 2015.
   - Sylw i Wyddoniaeth a llwybrau dysgu priodol.
   - Sylw manwl i berfformiad disgyblion PYD - Cau'r bwlch.
   - Amrywiaeth ym mherfformiad ysgolion - Perfformiad oddeutu hanner yr ysgolion uwchradd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn is na'r disgwyliad wrth gymharu ag ysgolion tebyg yn enwedig yn y *Trothwy Lefel 2+*, *Mathemateg* a *Saesneg*.
5. **Profion darllen Bl3-9** – yr angen i roi sylw i berfformiad yn y Saesneg. Perfformiad yn y Profion Darllen Cenedlaethol yn gyffredinol is yn y *Saesneg* o'i gymharu â'r *Gymraeg*.
6. **Presenoldeb Uwchradd** – parhau i fanylu a monitro'n ofalus.

www.gwynedd.gov.uk

# Gwaith datblygol ar sail yr arfarniad

1. Cau'r bwlch perfformiad – PYD a dim PYD a chymharu efo'r perfformiad cenedlaethol
2. Targedu tanberfformiad.
3. Manylu ar Fathemateg a Saesneg yn CA4 a sylw pellach i'r pynciau craidd.
4. Crynhoi a rhannu arferion da.
5. Sefydlu gwaith **ysgol-i-ysgol**.
6. Datblygu a chryfhau arweinyddiaeth er mwyn sicrhau gwelliannau.
7. Cadarnhau prosesau tracio cynnydd disgyblion.
8. Cadarnhau prosesau gosod targedau.
9. Gweithredu'r drefn sydd ynghlwm â chategoreiddio ysgolion a gwella perfformiad yn gyffredinol. Yr angen i fonitro a rhoi cefnogaeth bendant neu sylweddol i dros draean o'r ysgolion oherwydd pryderon am ddeilliannau neu/ac agweddau o arweinyddiaeth a'u gallu i wella.
10. Cydweithio'n agos efo GwE.

www.gwynedd.gov.uk

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **10 Ebrill 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' – sefyllfa cyngor Gwynedd** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd R H Wyn Williams** |

**1.Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd ar y modd y mae'r cyngor yn ymateb i ofynion y 'Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol – Mwy na Geiriau' (Mwy na Geiriau).

1.2 Rhoddir gwybodaeth am y cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru, a chynigir gwybodaeth mewn ymateb i gwestiynau penodol a godwyd gan y cyfarfod paratoi ar gyfer y Pwyllgor hwn.

**2.Cyd-destun**

2.1 Cyhoeddwyd 'Mwy na Geiriau' yn 2012, ynghyd â chynlluniau gweithredu (un ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac un arall ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol) sydd i'w gwireddu dros 3 blynedd rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2016

2.2 Wrth wraidd y fframwaith strategol, y mae'r ymrwymiad sydd gan wasanaethau cyhoeddus Cymru i ddarparu Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, gan gynnwys adnabod mai dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hangen am ofal a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid effeithiol.

2.3 Mae egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' yn treiddio trwy bob rhan o 'Mwy na Geiriau'. Yr hyn a olygir yw bod angen bodloni anghenion iaith y defnyddiwr, a chofio bod gan sefydliadau gyfrifoldeb i adnabod ac i ymateb i angen ieithyddol fel rhan greiddiol o ofal.

2.4 Cyhoeddwyd 'Mwy na Geiriau' yng nghyd destun gofynion cyfreithiol Mesur y Gymraeg (Cymru), ac mae'n bwysig cofio y bydd y safonau ar gyfer y Gymraeg a ddaw yn sgil y Mesur yn arwain at greu hawliau fel y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn Gwasanaethau yn Gymraeg.

## 3. Ymateb y cyngor i Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau'

3.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i Mwy na Geiriau o'r cychwyn cyntaf, gan ryddhau amser Uwch Reolwr i gynrychioli adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Grŵp Tasg Gweinidogol a sefydlwyd i baratoi'r Fframwaith Strategol.

3.2 Yn dilyn cyhoeddiad y fframwaith ei hun, mae'r camau canlynol wedi eu cymryd, sydd wedi bod yn allweddol i yrru'r agenda bwysig hon yn ei blaen:

- Comisiynu 'Arolwg o ofynion ac ymarfer Cyngor Gwynedd wrth ddarparu Gwasanaethau Cartrefi Gofal (Preswyl a Nyrsio), a Gofal Cartref', gan y Ganolfan Cynllunio Iaith – cyhoeddwyd y canfyddiadau ym Mawrth 2013
- Cynnwys cytundebau a gweithdrefnau monitro cytundebau wedi eu haddasu mewn ymateb i'r arolwg gan y Ganolfan Cynllunio Iaith
- Dylanwadu ar fanyldeb System Rheoli Gofal a Iechyd Cymunedol, fydd yn cymryd lle ein system gyfredol (RAISE) pan ddaw i derfyn ei hoes yn Ebrill 2016, er mwyn hwyluso'r gwaith o adnabod anghenion ac ymateb iddynt yn briodol
- Sicrhau ymrwymiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Cabinet Gofal i gyhoeddi datganiad yn mynegi eu dymuniad i weld sensitifrwydd i'r Gymraeg yn cael ei adlewyrchu ledled y Cyngor, ac yn nodi pwysigrwydd adnabod anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr wrth asesu a gofalu am ddefnyddwyr
- Gwybodaeth o'r Cyfrifiad am broffil iaith cymunedau wedi ei gasglu, a'r gwaith sydd ar y gweill i adolygu Cynlluniau Comisiynu yn ymgorffori'r canfyddiadau ac yn mynd i ddylanwadu ar 'Ddatganiadau Sefyllfa'r Farchnad' fydd yn cael eu paratoi dros y misoedd nesaf
- Casglu data ynglŷn â staff gofal Gwynedd, fel sail i gynllunio a gweithredu pellach
- Awdit wedi ei chynnal o'r modd y mae gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr eraill yn cofnodi dewis, neu angen iaith y defnyddiwr, a'r casgliadau wedi eu rhannu â'r holl reolwyr perthnasol
- Fel ran o holiadur blynyddol a anfonir at holl gartrefi preswyl a nyrsio mewnol ac allanol Gwynedd, wedi llunio cwestiynau penodol ynglŷn â gallu'r darparwyr hyn i gwrdd ag anghenion iaith defnyddwyr
- Ymrwymiad i ymestyn y cynllun 'pencampwyr iaith' sy'n bodoli o fewn Canolfannau Hamdden y Cyngor i'w holl gartrefi preswyl
- Penodi 'Hyrwyddwr y Gymraeg', ar lefel Uwch Reolwr
- Sefydlu Grŵp Tasg traws-adrannol, i gydlynu'r gweithredu mewn ymateb i'r gofynion cenedlaethol.

**4. Ymateb i gwestiynau penodol y cyfarfod paratoi**

4.1 Gweler isod y cwestiynau a ofynwyd, ynghyd ag ymateb cryno i bob un.

a. ***Beth oedd y disgwyliadau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sgil cyflwyno Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau?***

Roedd disgwyliad ein bod yn gweithredu yn unol â'r gofynion o fewn y cynllun gweithredu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hyn ar y gweill, ac fel y dangosir uchod, mae cynnydd sylweddol wedi digwydd o fewn y flwyddyn gyntaf.

b. ***Mae gan y Pwyllgor Craffu gonsyrn penodol am amodau iaith pan y mae'r Cyngor yn comisiynu. Pa mor hyderus all y Cyngor fod bod Gwasanaethau gofal a ddarperir trwy gytundeb ar ran Cyngor Gwynedd yn darparu gwasanaeth Cymraeg, yn recriwtio staff dwyieithog, ac yn cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod staff dwyieithog ar gael ar bob shift?***

Mae'r ganran uchaf o'r ddarpariaeth gofal a gomisiynir, o ddigon, ym maes Pobl Hŷn. Gofynwyd i'r Ganolfan Cynllunio Iaith adolygu cytundebau ar gyfer gofal cartref a gofal preswyl a nyrsio, a gwnaed 12 o argymhellion. Yn ystod 2013/14, rydym wedi adolygu pob un o'r cytundebau perthnasol er mwyn cryfhau'r cymalau sy'n cyfeirio at y Gymraeg. Rydym hefyd wedi grymuso ein trefniadau monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cytundebau hyn.

Ein bwriad yw ymestyn y gwaith hwn i weddill meysydd Oedolion a Phlant (gofal dydd, ôl ofal, cynllun lleoli oedolion, llety â chefnogaeth ayb), wrth i'r cytundebau ddod i derfyn eu hoes a chael eu hadnewyddu.

Dylid nodi bod gan yr Uned Gontractau enghreifftiau penodol o achosion lle maent wedi terfynu cytundeb a newid darparwr, oherwydd nad oedd y darparwr yn cwrdd â'r disgwyliadau cytundebol o safbwynt yr iaith Gymraeg.

Mae'r Tîm Broceriaeth, sydd ar hyn o bryd ddim ond yn gweithio ym maes gofal cartref, yn chwarae rôl allweddol gan eu bod yn sicrhau bod gofalwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu cyfeirio at y defnyddwyr sydd angen gwasanaeth yn yr iaith honno. Mae cynlluniau ar y gweill i ymestyn y Tîm hwn i feysydd eraill.

c. ***Roedd y ddogfen yn nodi 4 categori penodol oedd angen sylw, sef plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu a phobl gydag anawsterau iechyd meddwl. Ym mha feysydd mae'r Cyngor yn rhagweld yr her fwyaf?***

Mae dau brif faes sy'n peri anhawsterau, sef meysydd lle y mae angen recriwtio staff meddygol, megis cartrefi nyrsio, a meysydd lle mae prinder darpariaeth leol yn golygu ein bod yn comisiynu lleoliadau allsirol. Lleoliadau preswyl yw'r rhain yn bennaf, ym meysydd Plant ac Anableddau Dysgu.

Yr her i ni o safbwynt Pobl Hŷn yw sicrhau darpariaeth ddigonol, i gyd-fynd â'r niferoedd uchel. Mae cyfradd siaradwyr Cymraeg o fewn y categori hwn yn uchel, a'r ffaith bod dementia yn gyflwr arbennig o gyffredin yn cryfhau'r angen am ofal yn y Gymraeg. Yn ogystal â chryfhau ein trefniadau monitro contractau, rydym wedi diwygio ein holiadur blynyddol (holiadur i gywain gwybodaeth gan ein darparwyr) i gynnwys gwybodaeth am lefel a sgiliau gweithwyr o safbwynt y Gymraeg.

### ***ch. Sut mae trefniadau cynllunio'r gweithlu (rotas / caseloads) yn sicrhau argaeledd gweithlu dwyieithog i ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd?***

Oherwydd polisi iath y Cyngor, mae'r sefyllfa o safbwynt ein gweithlu mewnol yn hynod o gref yng nghyd-destun ein gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Eithriadau prin iawn yw sefyllfaoedd lle nad yw gweithwyr Cymdeithasol yn medru'r Gymraeg. Serch hynny, daw enghreifftiau i'r amlwg o bryd i'w gilydd, lle mae adborth yn profi nad yw gohebiaeth wastad yn cwrdd ag anghenion ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Bydd angen i'n hyfforddiant a'n goruchwylio fynd i'r afael â hyn.

Y mae ychydig yn fwy o'r gweithlu gofal rheng flaen yn ddi-Gymraeg, ond mae gan yr adain Ddarparu fewnol drefniadau cadarn o ran adnabod angen iaith a sicrhau bod y gefnogaeth yn cyd-fynd â'r anghenion hynny. I'r dyfodol, y mae angen sicrhau bod polisi iaith y cyngor, o safbwynt recriwtio, yn cael ei ddilyn yn ddi-eithriad.

### ***d. Pa bwysau y mae'r Adran yn ei roi ar asiantaethau eraill ar eu defnydd o'r Gymraeg?***

Fel y nodwyd uchod, ar gyfer asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr, mae'r Adran yn gwbl ddiamwys o ran y pwysau, gan ei fod yn rhan o gytundebau darparwyr. Mae cyfrifoldebau i gydweithio â'r Bwrdd Iechyd yn cynyddu, ac mae swyddogion yn cymryd pob cyfle posibl i geisio dylanwadu ar ymarfer a chynyddu ymwybyddiaeth ieithyddol cydweithwyr Iechyd. Yn ddiweddar, gwelir enghreifftiau cynyddol lle mae cynrychiolwyr o'r Adran yn mynnu nad yw iaith cyfarfodydd a gweithdai rhanbarthol ac aml-asiantaethol yn troi i'r Saesneg pan fo Cymry fyddai'n dymuno siarad Cymraeg yn bresennol. Mae'r Fforwm Sirol yn fforwm aml-asiantaethol sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chydlynu ein gwaith ar y cŷd, a bydd y gynrychiolaeth uwch reolaethol o'r Cyngor yn sicrhau llwyfant priodol i agenda 'Mwy na Geiriau'.

*dd. A oes rhwystrau rhag gallu darparu gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr? Sut mae'r gwasanaeth yn mynd ati i oresgyn y rhwystrau hynny?*

O'i chymharu â gweddill Cymru, rydym ni yng Ngwynedd yn ffodus iawn, gan fod gennym fynediad i weithlu addas sy'n hyddysg yn y Gymraeg a sy'n medru cwrdd â chyfradd uchel o'r anghenion. Serch hynny, y mae recriwtio staff addas yn parhau yn rhwystr mewn rhai ardaloedd a meysydd penodol. Enghraifft yw gofal cartref a gofal nyrsio mewn rhannau o Feirionydd. Rhwystr arall yw agwedd rhai sefydliadau sy'n darparu gofal, a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau. Weithiau, ceir gwasanaeth derbyniol o ran gofal un i un, ond bod agweddau megis taflenni gwybodaeth, gwefanau, posteri yn uniaith Saesneg. Rhwystr sy'n codi ei ben yn weddol aml yw bod darparwr yn methu deall Cymraeg ysgrifenedig yn ddigonol i ddeall cynlluniau gofal, a thra'n medru cynnig gofalwr i wneud y gwaith, yn methu sicrhau bod rheolwr neu oruchwyliwr yn medru'r Gymraeg yn ddigon da i gyfarwyddo a goruchwylio'r aelod staff.

Rydym yn ceisio goresgyn yr anhawsterau hyn, yn gyntaf, trwy werthuso hyd a lled y broblem. Fel y nodwyd eisoes, mae holiadur wedi ei lunio i ganfod gwybodaeth fanwl, fesul darparwr. Rydym wedi cynorthwyo sefydliadau gyda'u hymrwymiad i ddogfennaeth ysgrifenedig dwyieithog trwy gynnwys cyfeiriad at Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru mewn cytundebau. Mae'r Bartneriaeth Gweithlu a'r Fforwm Darparwyr yn ddau grwp allweddol o ran cynnig cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant arbenigol ar y cynnig rhagweithiol ac ymwybyddiaeth iaith. Ym mis Chwefror eleni, cynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer aelodau etholedig, gan obeithio y byddai'r egwyddorion yn treiddio ymhellach. Mae adolygiad 'Dechrau i'r Diwedd' ar fin cychwyn ym maes Oedolion, a'r bwriad yw sicrhau bod Mwy na Geiriau yn treiddio fel thema trwy gydol yr adolygiad o ansawdd a phriodoldeb ein gwasanaethau cyfredol.

*e. I ba raddau mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i integreiddio Mwy na Geiriau fel rhan o ddiwylliant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ee. defnyddwyr yn ganolog, cynnig rhagweithiol?*

Oherwydd polisi iaith y Cyngor, rydym yn hynod ffodus yn yr ystyr ein bod eisoes, cyn cyhoeddiad Mwy na Geiriau, yn bell iawn ar y daith tuag at wireddu'r gofynion. Oherwydd bod y Gymraeg yn iaith gynhenid i gymaint o ddefnyddwyr gwasanaeth ac aelodau staff, rydym yn bodloni llawer o'r gofynion. Yr hyn sydd wedi ei gryfhau dros y misoedd diwethaf yw ymlediad y diwylliant hwn yn ehangach, i'r gymuned gofal y tu hwnt i ffiniau'r Cyngor. Trwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, yn cynnwys darparwyr, rydym yn gweld cynnydd o ran ein gallu i gwrdd â gwir anghenion ieithyddol pobl. Serch hynny, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau, a'r bwriad yw parhau i gynnig hyfforddiant, adolygu ein dulliau cofnodi a monitro ein cytundebau.

## 5. Y Ffordd Ymlaen

5.1 Croesewir sylwadau'r Pwyllgor ar yr wybodaeth uchod, a bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol wrth grynhoi ein cynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol (cais penodol sydd wedi dod gan Lywodraeth Cymru).

5.2 Cynigir bod adroddiad pellach ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn a / neu y Pwyllgor Iaith, ymhen cyfnod o 6 mis i flwyddyn.